# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ddydd Llun 20 Rhagfyr 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

D Docx (Prif Swyddog Tân); G Owens (Clerc a Swyddog Monitro); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); H Howard (Pennaeth Cyllid); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J W Parry | Cyngor Gwynedd |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw rybudd o faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MEDI 2021

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 20 Medi eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth atynt ers mis Medi.

6.2 Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd â'r Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân, roedd y tri yn fwyaf diweddar wedi mynychu Gwasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys yng Nghadeirlan Bangor.

6.3 Roedd y Cadeirydd wedi mynychu dau gyfarfod o Fwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, lle tynnwyd sylw eto at y pwysau sylweddol ar Ofal Cymdeithasol o ran cyllid a recriwtio. Mewn cyfarfod lle roedd y Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog Llywodraeth Leol, roedd y Cadeirydd wedi cael cyfle i ymdrin â'r achos dros gael y gwasanaeth tân ac achub i helpu pan fo pobl yn cael codwm gartref, ynghyd â'r gofyniad cyllid sy'n gysylltiedig â hynny.

6.4 Roedd y Cadeirydd a'r PST wedi cyfarfod â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i glywed am eu cynllun strategol ac i drafod ffyrdd o gydweithio yn y dyfodol; bu'n gyfarfod cadarnhaol.

6.5 Roedd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Cyng. Michael Dixon, fel Hyrwyddwr yr Amgylchedd, wedi cyfarfod â swyddogion o Archwilio Cymru i ateb cwestiynau am y Strategaeth Amgylcheddol a'r risg mwyaf a ganfyddir, sef methu â chyrraedd targed Llywodraeth Cymru o Gymru Sero Net erbyn 2030. Rhoddir rhagor o wybodaeth i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

Ar yr adeg hon, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau mai dyma oedd cyfarfod olaf Ken Finch fel Trysorydd yr Awdurdod. Roedd Mr Finch wedi cyflawni'r swydd ers dechrau'r Awdurdod yn 1996 felly nid oedd modd mesur ei wybodaeth a'i arbenigedd. Ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion, diolchodd y Cadeirydd i Mr Finch am ei waith a'i gyngor ardderchog dros y bum mlynedd ar hugain ddiwethaf, gan ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

7 ALLDRO AMCANOL 2021/22

7.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi amlinelliad o sefyllfa'r gwariant refeniw a chyfalaf rhagamcanol ar gyfer 2021/22, fel yr oedd pethau ar 31 Hydref 2021.

7.2 Nodwyd bod y sefyllfa alldro a ragwelir yn dal yr un fath, sef y bydd yr Awdurdod yn adennill y costau mewn perthynas â'r gyllideb refeniw o £37.07m.

7.3 Ar ôl ystyried yr adroddiad a chael gofyn i ofyn cwestiynau am yr wybodaeth a ddarparwyd, **PENDERFYNWYD nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, fel y nodir yn yr adroddiad.**

8 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022/25 A CHYLLIDEB 2022/23

8.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y gyllideb refeniw a chyfalaf ddrafft ar gyfer 2022/23 i'r Aelodau, ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig tan fis Mawrth 2025; roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cadarnhad o'r cyllid a fyddai ei angen gan bob awdurdod lleol cyfansoddol.

8.2 Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r gofyniad i'r Awdurdod osod cyllideb fantoledig ymhob blwyddyn ariannol a chadarnhau ffigyrau amcaniol y cyfraniadau i bob awdurdod cyfansoddol erbyn diwedd y mis Rhagfyr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

8.3 Roedd cyllideb 2022/23 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolog yn cynnwys nifer o ragdybiaethau allweddol, risgiau ac ansicrwydd a ganfuwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb. Nodwyd bod gweithdai wedi'u cynnal i'r aelodau ar 2 Tachwedd 2021, ac roeddent wedi rhoi cyfle i'r Aelodau a'r swyddogion drafod yn fanwl wahanol elfennau o ofynion cyllideb 2022/23 a'r risgiau cysylltiedig.

8.4 O ran cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol, cadarnhawyd bod Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid pob awdurdod yn ymwybodol o'r cynnydd er mwyn eu galluogi i'w ystyried wrth gynllunio eu cyllidebau.

8.5 I ymateb i gwestiynau'r Aelodau, rhoddodd y swyddogion ragor o wybodaeth am effaith y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau i'w cyflwyno yn dilyn Ymchwiliad Grenfell, a chadarnhau bod y risgiau a'r ansicrwydd a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu monitro'n rheolaidd.

8.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2022/23, yn seiliedig ar gynnydd o £2.34m yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol;**
**(ii) nodi'r risgiau allweddol a'r ansicrwydd a ganfuwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb; a**
**(iii) cefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.**

9 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – GWEITHDREFN FEWNOL AR GYFER DATRYS ANGHYDFODAU

9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am newidiadau arfaethedig i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (IDRP). Roedd angen y newidiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfarwyddyd diweddaredig yng Nghylchlythyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (2021)09.

9.2 Nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi diweddariad i gyfarwyddyd ar Wweithdrefnau Mewnol ar gyfer Datrys Problemau ym mis Mehefin 2021, a oedd yn dangos bod angen diwygiad i ail gam y broses. Ar y pryd, roedd cwynion cam 1 yn cael eu hystyried gan Gadeirydd yr ATA yn unig, ac nid oedd hynny'n gyson â'r cyfarwyddyd.

9.3 Yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol yn Awst 2021, cynigiodd aelodau'r bwrdd y dylai cwynion cam 2 gael eu hystyried gan banel yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr ATA ynghyd ag un o gynrychiolwyr y cyflogwr sy'n sefyll ar y Bwrdd Pensiwn Lleol; cynigiodd y Cadeirydd fod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cyflawni'r rôl, a chytunodd pob Aelod â hyn.

9.4 **PENDERFYNWYD cefnogi'r newidiadau arfaethedig i gam dau o drefniadau'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau, sef y dylai'r panel sy'n delio â chwyn cam 2 gynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr ATA a bod trydydd aelod y panel yn un o gynrychiolwyr y cyflogwr a enwebwyd, sef Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.**

10 GWAHANIAETHU AR SAIL OEDRAN YNG NGHYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

10.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y sefyllfa sy'n esblygu o ran hynt y newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran sy'n deillio o'r diwygiadau i bensiynau yn 2013.

10.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion cynigion ar gyfer ymdrin ag aelodau sy'n dioddef niwed uniongyrchol yn deillio o'u hymddeoliad neu o'u hymddeoliad sydd ar fin digwydd. Cydnabuwyd y bydd y ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei chyflwyno yn darparu y bydd dewis gohiriedig yn cael ei weithredu erbyn 1 Hydref 2023 ac y bydd hyn yn gofyn am ragor o newidiadau i reoliadau'r cynllun. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod aelodau sydd wedi ymddeol neu sydd i fod i ymddeol cyn i'r trefniadau deddfwriaethol gael eu cwblhau'n derfynol yn cael eu hystyried yn rhai sydd â niwed uniongyrchol.

10.3 Er mwyn mynd i'r afael â mater y niwed uniongyrchol i'r rhai sy'n ymddeol cyn 1 Hydref 2023, cytunwyd ar fframwaith ym mis Hydref 2021 a oedd yn darparu mecanwaith i ganiatáu i'r rhai yr effeithir arnynt i dderbyn eu buddion gwaddol cyn y dyddiad hwn. Cytunwyd ar y fframwaith gan gyfreithwyr yn gweithredu ar ran Undeb yr FBU a Chymdeithas yr LGA ar ran yr awdurdodau tân ac achub. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi'r fframwaith y cytunwyd arno, rhyddhawyd datganiad ar y cyd gan Drysorlys EM/CThEM ar 29 Tachwedd 2021 a oedd yn darparu asesiad o'r risgiau treth yn gysylltiedig â phrosesu achosion o niwed uniongyrchol cyn y newidiadaun i'r Rheoliadau. O ganlyniad i hyn, cafwyd rhagor o gyngor cyfreithiol drwy Gymdeithas yr LGA, a rhoddwyd saib ar y cytundeb fframwaith.

10.4 Nodwyd bod y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cyfarfod ym mis Hydref 2021 ac wedi cefnogi'r argymhellion i fabwysiadu cytundeb fframwaith yr LGA/Undeb yr FBU. Fodd bynnag, nid oedd y Bwrdd wedi cwrdd ers i gyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi/CThEM gael ei dderbyn, felly nid oedd wedi cael cyfle i ystyried yr wybodaeth yn fanwl.

10.5 Rhoddodd y PSTC wybod i'r Aelodau fod cyngor cyfreithiol wedi dod i law ers cyhoeddi'r adroddiad, gan gadarnhau bod gan yr Awdurdod bwerau cyfreithiol i brosesu hawliadau o niwed uniongyrchol ar sail y fframwaith, felly gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar yr egwyddor o brosesu hawliadau o fewn y fframwaith, yn ddibynnol ar gael sicrwydd terfynol nad yw'r risgiau ariannol yn arwyddocaol.

10.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r sefyllfa gyfredol o ran y rhwymedi;**
**(ii) cymeradwyo ymateb yr Awdurdod i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i reoliadau pensiwn y diffoddwyr tân;**
**(iii) cymeradwyo'r argymhelliad fod achosion o niwed uniongyrchol yn cael eu symud ymlaen yn unol â fframwaith cyfreithiol Undeb yr FBU/LGA, gan ddod i rym ar 4 Ionawr 2022, ynghyd â nodi bod y cyngor cyfreithiol wedi dod i law a bod yr asesiad cychwynnol o'r risg wedi'i gadarnhau; a**
**(iv) bod yr asesiad risg terfynol yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod.**

11 POLISI DISGRESIYNOL CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

11.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn cadarnhau'r gofyniad i'r Awdurdod lunio Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a cheisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau arfaethedig ar gyfer Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

11.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod rhaid i'r Awdurdod lunio a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i bolisi ar gyfer rhai pwerau disgresiynol penodol o dan y Rheoliadau sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Cafodd y polisi disgresiynol cyfredol ei gymeradwyo gan yr aelodau ar 16 Medi 2019, a nodwyd mai arfer dda yw adolygu'r rhain yn gylchol.

11.3 Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Cyfraniadau Ychwanegol Rhannu Costau yn ddiweddar, adolygwyd y disgresiynau. Nodwyd bod y Cynllun yn caniatáu i aelodau'r cynllun pensiwn wneud cyfraniadau ychwanegol drwy ddefnyddio trefniant aberthu cyflog sy'n cydymffurfio â CThEM ac a weinyddir gan ymgynghorwyr treth y Gwasanaeth. Mae'r gweithiwr yn elwa o lai o dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Caiff y gost o weinyddu'r cynllun ei thalu gan y cyflogwr, sydd hefyd yn elwa o lai o gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr.

11.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob penderfyniad disgresiynol i'w ymgorffori ym Mholisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Gwasanaeth.**

12 ADOLYGU CYFANSODDIAD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

12.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo'r cyfansoddiad diwygiedig a'r Polisi Cyfarfodydd.

12.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc y cytunwyd yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod i sefydlu gweithgor bychan i adolygu'r Cyfansoddiad ac i baratoi Polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") ac adlewyrchu'r newidiadau i ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithredu oherwydd y pandemig.

12.3 Rhoddodd y Clerc wybodaeth gyffredinol i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan y gweithgor, gan ddweud ei fod wedi argymell y newidiadau i'r Cyfansoddiad ac wedi cymeradwyo Polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog. Nodwyd bod y Pwyllgor Safonau hefyd wedi cynnal adolygiad o'r protocolau a'r polisïau sydd o fewn y cyfansoddiad.

12.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd mewn Lleoliadau Lluosog a'r Cyfansoddiad diwygiedig;**
**(ii) diolch i aelodau'r gweithgor, y Pwyllgor Safonau a'r swyddogion a fu'n gysylltiedig â'r gwaith o baratoi'r dogfennau cynhwysfawr hyn.**

13 COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU A THRAFODION PARTION CYSYLLTIOL

13.1 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc o bwysigrwydd sicrhau bod eu cofrestr buddiannau'n cael ei chadw'n gyfredol. Nodwyd bod cofrestr buddiannau'r holl Aelodau yn cael ei chyhoeddi ar wefan ATAGC. Caiff y ffurflen trafodion partïon cysylltiol ei dosbarthu yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, ac unwaith eto gofynnir i'r Aelodau ei llenwi a'i dychwelyd yn brydlon er mwyn cynnwys yr wybodaeth yn y cyfrifon blynyddol sy'n ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

13.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

14 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2022

14.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau beth fydd dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2022.

14.2 **PENDERFYNWYD cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn i ddod.**

Ar ddiwedd rhan I yr agenda, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r cyfarfod. Yna, cytunwyd i symud i ran II o'r cyfarfod.

RHAN II

15 CADARNHAU PENODI PRIF SWYDDOGION

15.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod cyfweliadau ar gyfer swyddi Dirprwy Brif Swyddog Tân a Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi cael eu cynnal ar 14 Rhagfyr 2021.

15.2 Roedd proses recriwtio a dethol drylwyr wedi cael ei chynnal, ac roedd aelodau'r panel dethol yn unfrydol yn eu penderfyniadau i argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod Stewart Forshaw yn cael ei benodi i swydd Dirprwy Brif Swyddog Tân a bod Stuart Millington yn cael ei benodi i swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

15.3 **PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y panel dethol, a phenodi:**

**(i) Stewart Forshaw i swydd Dirprwy Brif Swyddog Tân; a**
**(ii) Stuart Millington i swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.**

15.4 Yna, gwahoddwyd y ddau a benodwyd i'r cyfarfod i'w cyflwyno eu hunain i'r Aelodau ac i roi gwybodaeth gryno am eu gyrfaoedd hyd yma.